Briff Ymchwil

# Ffermydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Awdur: **Rachel Prior**

Dyddiad: **Mehefin 2016**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Rachel Prior**
Dyddiad: **Mehefin 2016**
Rhif Papur: **16-035**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

**: 0300 200 6328**
**: Ymchwil@Cynulliad.Cymru**
**: Cynulliad.Cymru/Pigion**
**: @SeneddYmchwil**
**: Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Ffermydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Mae ffermydd awdurdod lleol wedi bod yn fynediad i'r diwydiant ffermio i bobl ifanc am dros ganrif, ers Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd (1908). Mae'r papur briffio hwn yn trafod nifer y ffermydd awdurdod lleol yng Nghymru ar hyn o bryd ac yn rhoi crynodeb o farn rhanddeiliaid ar y mater.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Ffermydd Awdurdod Lleol yng Nghymru

## Cyflwyniad

Mae ffermydd awdurdod lleol wedi bod yn fynediad i'r diwydiant ffermio i bobl ifanc am dros ganrif, ers **Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd (1908)**. Mae'r papur briffio hwn yn trafod nifer y ffermydd awdurdod lleol yng Nghymru ar hyn o bryd ac yn rhoi crynodeb o farn rhanddeiliaid ar y mater.

## Beth yw Ffermydd Awdurdod Lleol?

Mae ffermydd awdurdod lleol neu gyngor sir yn unedau amaethyddol sy'n eiddo i awdurdod lleol ac sy'n cael eu rhentu i ffermwyr. Cawsant eu creu yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif oherwydd gostyngiad yn nifer y bobl a oedd yn dewis y diwydiant ffermio a **roeddent yn ffordd ddefnyddiol** o ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i filwyr ar ôl y ddau ryfel byd.

Mae'r ffermydd yn cael cefnogaeth drwy amryw o Ddeddfau, er enghraifft, **Deddf Amaethyddiaeth (1970)**, sy'n nodi y dylai Awdurdodau lleol:

> *…make it their general aim to provide opportunities for persons to be farmers on their own account by letting holdings.*

Mae hyn yn ddibynnol ar a oes gan y person dan sylw, ym marn yr awdurdod, brofiad amaethyddol digonol i ffermio ar ei liwt ei hun, neu a oes gan yr awdurdod lleol sail resymol dros gredu y bydd yn gallu ennyn y profiad hwnnw mewn amser byr.

Oherwydd y pwysau ariannol sy'n wynebu rhai awdurdodau lleol, maent wedi gwerthu rhai o'u hasedau mân-ddaliadau er mwyn codi arian cyfalaf. Mae rhai **rhanddeiliaid wedi mynegi pryder** y gallai hyn gael effaith andwyol ar allu ymgeiswyr newydd i ddechrau gyrfa yn y diwydiant ffermio oherwydd y costau cyfalaf cychwynnol uchel sy'n ofynnol fel arall.

## Sawl Fferm Awdurdod Lleol sydd yng Nghymru?

Mae Llywodraeth Cymru yn **casglu a chyhoeddi ystadegau blynyddol** ar maint a nifer y mân-ddaliadau ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, yn ogystal â chofnodi tenantiaethau newydd a'r rhai sy'n dod i ben, y tir sy'n cael ei waredu, a chyfrifon cyffredinol ystâd amaethyddol cenedlaethol yr awdurdodau lleol.


Adeg y cyfrif diwethaf ym mis **Mawrth 2014, roedd gan awdurdodau lleol yng Nghymru 1,022 o fân-ddaliadau, gydag arwynebedd dros 18,000 hectar.** Mae hyn yn cyfrif am ychydig dros 1 y cant o gyfanswm y tir ar rent yng Nghymru. Ar 31 Mawrth 2015, roedd 920 tenant gan fân-ddaliadau awdurdod lleol. Yn ystod 2014-15, fe roddwyd 257 tenantiaeth newydd, ac roedd 211 o'r rheiny ar gyfer newydd-ddyfodiaid. Darparodd mân-ddaliadau awdurdod lleol incwm net blynyddol o dros £1.1 miliwn i awdurdodau Cymru.

Roedd amrywiad sylweddol rhwng awdurdodau lleol o ran arwynebedd y tir ffermio a oedd yn eu meddiant. Er enghraifft, roedd gan awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili a Thorfaen oll lai na 100 hectar o dir mân-ddaliadau; tra bo gan Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych, Gwynedd a Sir Fynwy dros 1,000 hectar yr un. Roedd gan Ynys Môn a Sir Benfro dros 2,000 hectar yr un, a Chyngor Sir Powys oedd â'r ystâd mân-ddaliadau fwyaf gyda dros 4,500 hectar.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2013-14, gwnaeth rhai awdurdodau lleol waredu tir a ddefnyddiwyd fel mân-ddaliadau yn flaenorol. Er enghraifft, gwerthodd Cyngor Sir Casnewydd 0.27 hectar yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014 am £6,000, a gwaredodd Cyngor Sir Fynwy ar 49 hectar o dir gan godi £1.2 miliwn.

Y cyfanswm, ar ôl i **naw o'r 22 awdurdod lleol werthu** neu waredu fel arall ar dir yn ystod y cyfnod hwn, oedd dros 185 hectar am dros £3.7 miliwn.

**Ffigur 1: Tir fferm a werthwyd gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2014 (ffigurau absoliwt)**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Mawrth 2016

## Ystyriaeth gan y Cynulliad

### Y Trydydd Cynulliad

Ystyriwyd y mater yn fanwl yn y Trydydd Cynulliad gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig. Gwnaeth yr Is-bwyllgor **sawl argymhelliad** i Lywodraeth Cymru. Roedd yr Is-bwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud yr hyn a ganlyn:

- Gweithio gydag awdurdodau lleol i feithrin gwell cysylltiadau â thirfeddiannwr preifat er mwyn annog integreiddio gwell rhwng y ddau sector.
- Gweithio gyda landlordiaid preifat i ganfod rhwystrau i rentu a'u goresgyn, a chanfod ffyrdd o roi mwy o sicrwydd i denantiaid drwy brydlesi mwy hirdymor.
- Defnyddio enghreifftiau o arfer da mewn ardaloedd eraill i gynorthwyo a llywio gwaith awdurdodau lleol o ran eu strategaethau i reoli a gwaredu ar eu hystadau.

– Helpu awdurdodau lleol i ddatblygu dull cydgysylltiedig o reoli’r ystâd mân-ddaliadau awdurdod lleol, gan gynnwys rhwydweithio a rhannu gwybodaeth.

– Ymchwilio i ffyrdd o gefnogi awdurdodau lleol i fuddsoddi yn y tai ar eu hystadau mân-ddaliadau heb orfod gwerthu tir i godi arian ar gyfer y gwaith.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yn cefnogi'r argymhellion hyn gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cynghorau sir, undebau ffermwyr, y Gymdeithas Ffermwyr Tenant a ffermwyr ifanc.

Awgrymodd y rhanddeiliaid i'r Pwyllgor, heb fynediad at ffermydd awdurdodau lleol, na fyddai pobl ifanc heb gyfalaf sylweddol neu gyfle i etifeddu fferm deuluol yn gallu cael mynediad at y diwydiant. Nodwyd fod y galw am ffermydd awdurdod lleol yn fwy na nifer y tenantiaethau ar lefel mynediad.

Clywodd y Pwyllgor nad oedd yr arian a godwyd drwy waredu ar dir bob tro'n cael ei ail-fuddsoddi yn yr ystâd gan awdurdodau lleol. Awgrymwyd felly y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyngor i awdurdodau lleol ar sut i ddilyn dull mwy hirdymor o ran rheoli ystadau fferm.

### Y Pedwerydd Cynulliad

Yn **Adroddiad Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad** y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, nodwyd newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant ffermio a sgiliau fel meysydd blaenoriaeth i'r Cynulliad nesaf. Nodwyd adolygiad o ystâd ffermydd awdurdodau lleol a’i rôl yn rhoi mynediad i dir ar gyfer ffermwyr newydd a newydd-ddyfodiaid fel maes gwaith posibl ar gyfer y pwyllgor nesaf.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

Yn ei thystiolaeth i Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Pedwerydd Cynulliad **ar 2 Mawrth 2016**, dywedodd Rebecca Evans, y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ar y pryd:

> *Of course, local authority smallholdings are really important in terms of helping young people, particularly, and being an entry into farming for people who have perhaps not had a background in farming as well. The last two winners of our Brynle Williams memorial award have actually been tenant farmers in that situation, so it does show the kind of quality of people who can come through in that way. The responsibility of this really does lie with local authorities themselves. However, they do have responsibilities under the Agriculture Act 1970, in order to make it their general aim to provide opportunities for persons with experience to be farmers in their own account, by letting smallholdings that are capable of sustaining, you know, a sustainable living on that smallholding. So, there is that responsibility there.*

## Rhanddeiliaid

### Cyngor Sir Ynys Môn

Fel rhan o'r dystiolaeth a roddwyd i Is-bwyllgor y Trydydd Cynulliad, **nododd Cyngor Sir Ynys Môn** yr heriau a oedd yn wynebu'r Cyngor ar y pryd o ran ariannu'r gwaith atgyweirio ac adnewyddu helaeth i ffermdai ar ystâd y cyngor. Dywedodd y Cyngor, oherwydd safon isel rhai o'r tai ar ystâd fferm y cyngor, bod ceisiadau am denantiaethau newydd wedi gostwng.

### Y Gymdeithas Ffermwyr Tenant

Mae'r Gymdeithas Ffermwyr Tenant wedi mynegi ei chefnogaeth barhaus ar gyfer ystâd ffermydd awdurdod lleol a'i rôl wrth helpu newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant. Mae George Dunn, Prif Weithredwr y Gymdeithas Ffermwyr Tenant, **wedi datgan:**

> *With the capital requirements of agriculture, it is one of the most difficult industries to enter. Tenancies offer a very effective way of bringing in new entrants and sustaining businesses into the long term. The county council farm structure has provided a major contribution to this. With the capital requirements of agriculture, it is one of the most difficult industries to enter. Tenancies offer a very effective way of bringing in new entrants and sustaining businesses into the long term. The county council farm structure has provided a major contribution to this.*

### NFU Cymru

Mae NFU Cymru, **yn ei faniffesto** ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016, yn nodi barn ar ystâd ffermydd awdurdod lleol:

> *Mae'r system fferm cyngor yn rhoi ffordd werthfawr i gychwyn yn y diwydiant ar gyfer llawer o ffermwyr ifanc. Gostwng bu hanes maint yr ystâd ffermydd cyngor yn y blynyddoedd diweddar wrth i awdurdodau lleol o dan bwysau ariannol werthu eu ffermydd. Er ein bod yn deall pam y gall gwerthu asedau fel hyn ymddangos yn ddeniadol i gwrdd ag anghenion ariannol byrdymor, rydym yn ystyried y polisi hwn i fod yn anghywir. Mae ffermydd cyngor yn asedau gwerthfawr, sy'n cynnig posibilrwydd o ffrwd o gyllid cyfredol, ddi-dor.*

Mae NFU Cymru wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau gweithredu. Mae NFU Cymru yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru dynnu sylw at y cyfleoedd gyrfa sydd ar gael ym maes amaethyddiaeth yn ogystal ag helpu awdurdodau lleol i gynnal yr ystâd ffermydd cynghorau.

### Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)

Mae'r FUW wedi mynegi pryder bod awdurdodau lleol yn gwerthu eu hystadau fferm. Yn 2013, mynegodd Darren Williams, cadeirydd Pwyllgor Llais Ifancach i Ffermio yr FUW, **bryder** ynghylch awdurdodau lleol yn gwaredu ffermydd. Fe'u disgrifiodd fel llwybr gwerthfawr a hanfodol i mewn i'r diwydiant ffermio ar gyfer newydd-ddyfodiaid. Dywedodd:

> *For many, county council holdings remain one of the only entry routes in the industry. They must be kept as a legacy for future generations.*

Nododd hefyd fod problem gyda diffyg symud rhwng tenantiaethau, yn enwedig pan fydd tenantiaid hŷn, sydd wedi sefydlu eu hunain, yn methu symud o ddaliadau cyngor canolig neu fwy eu maint neu'n amharod i wneud hynny, sy'n golygu nad yw'r genhedlaeth iau o ffermwyr yn gallu cael mynediad atynt.

### Cyngor Sir Powys

Yn ei dystiolaeth i'r Is-bwyllgor yn y Trydydd Cynulliad, roedd **Cyngor Sir Powys** o'r farn ar y pryd mai:

> *… the primary objective of the Estate should be to make a financial contribution to Council services proportionate to the value of the asset employed.*

Nododd y Cyngor hefyd mai rhan bwysig o'r rôl yw hwyluso mynediad ffermwyr ifanc a newydd-ddyfodiaid i ffermio i'r diwydiant, er gwaethaf y cyfleoedd cyfyngedig gyda'r ystâd bresennol.

### Cyngor Sir Gâr

Yn ei dystiolaeth i Is-bwyllgor y Trydydd Cynulliad **nododd y Cyngor ar y pryd** mai ei nod cydnabyddedig oedd:

> … *provide affordable opportunities for persons who would otherwise not be able to enter into agriculture by purchasing or renting in the private rented sector & to establish themselves as farmers and rural business entrepreneurs. Also for tenants to progress on their own account & to move off the Estate on to larger farms in the private or institutional sectors.*

Awgrymodd y Cyngor mai un o'r rhesymau pam nad oedd ystâd fferm y Sir bellach yn darparu cymaint o gyfleoedd ag yr oedd yn arfer gwneud oedd bod symud ymlaen o unedau cychwynnol i ddaliadau â thenantiaeth breifat bellach yn anodd, ac felly roedd tenantiaid yn tueddu i aros yn yr un fferm am gyfnodau hir, hyd yn oed y tu hwnt i oed ymddeol mewn rhai achosion.

### Clwb Ffermwyr Ifanc

Mae **maniffesto** Ffederasiwn Cenedlaethol y Clybiau Ffermwyr Ifanc ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2016 yn nodi cadw ffermydd cyngor sir fel prif ddiddordeb a phryder y Ffederasiwn. Mae'r Grŵp Llywio wedi nodi bod manteision amgylcheddol, addysgol ac economaidd i ffermydd awdurdodau lleol, yn ogystal ag agor y drws i newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant ffermio. Mae Pwyllgor Cenedlaethol Amaethyddiaeth a Materion Gwledig Ffederasiwn Cenedlaethol y Clybiau Ffermwyr Ifanc wedi lobïo o blaid ffermydd awdurdodau lleol ac wedi gwneud argymhellion ar gyfer adolygu polisïau ystadau fferm awdurdod lleol.

## Ffynonellau Allweddol


- **Deddf Amaethyddiaeth 1970** (Saesneg yn unig)
- Syr Donald Curry, **The Importance of the County Farm Service to the Rural Economy** (Saesneg yn unig), Tachwedd 2008
- Llywodraeth Cymru, **Adroddiad blynyddol ar Fân-ddaliadau Awdurdodau Lleol yng Nghymru 2014-15** (PDF 259 KB), Mawrth 2016
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Is-bwyllgor Datblygu Gwledig y Trydydd Cynulliad, **Ffermydd awdurdodau lleol yng Nghymru**, Rhagfyr 2010
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Pedwerydd Cynulliad, **Adroddiad Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad**, Mawrth 2016